

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid
Questions on Finance to the Finance Minister
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid Questions on Finance to the Finance Minister

Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU The UK Government's Spending Review

Q9 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on the implications of the UK Government's spending review on the Welsh Assembly Government? OAQ0008(FIN)

C9 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch goblygiadau adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ar Lywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0008(FIN)

The Finance Minister (Sue Essex): The UK Government's spending review means that the Assembly's departmental expenditure limit will increase from £11.3 billion in 2004-05 to £13.8 billion in 2007-08, which is an increase of 22 per cent. Taking inflation into account, this means that our budget will grow by more than 4 per cent on average each year.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Golyga adolygiad gwariant Llywodraeth y DU y bydd terfyn gwariant adrannol y Cynulliad yn cynyddu o £11.3 biliwn yn 2004-05 i £13.8 biliwn yn 2007-08, sef cynnydd o 22 y cant. Gan ystyried chwyddiant, golyga hynny y bydd ein cyllideb yn cynyddu o fwy na 4 y cant ar gyfartaledd bob blwyddyn.

Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU The UK Government's Spending Review

Q10 Christine Gwyther: Further to her statement of 3 November 2004, will the Minister provide an update on the implications of the UK Government's spending review on the Welsh Assembly Government's budget? OAQ0036(FIN)

C10 Christine Gwyther: Yn dilyn ei datganiad ar 3 Tachwedd 2004, a wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am oblygiadau Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU ar gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0036(FIN)

Sue Essex: The UK Government's spending review means that the Assembly's departmental expenditure limit will increase from £11.3 billion in 2004-05 to £13.8 billion in 2007-08, which is an increase of 22 per cent.

Sue Essex: Golyga adolygiad gwariant Llywodraeth y DU y bydd terfyn gwariant adrannol y Cynulliad yn cynyddu o £11.3 biliwn yn 2004-05 i £13.8 biliwn yn 2007-08, sef cynnydd o 22 y cant.

**Cyllid Ychwanegol a Gafwyd gan Ganghellor y DU
Additional Funding Received from the UK Chancellor**

Q11 Jenny Randerson: Will the Minister make a statement on the additional £7.5 million recently received from the UK Chancellor? OAQ0011(FIN)

C11 Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y £7.5 miliwn yn ychwanegol a gafwyd yn ddiweddar gan Ganghellor y DU? OAQ0011(FIN)

Sue Essex: I have announced that the £7.4 million additional money will be added to the funding of local government. This recognises the importance of local services and the need to support council tax payers.

Sue Essex: Yr wyf wedi cyhoeddi y bydd y £7.4 miliwn ychwanegol yn cael ei ychwanegu at gyllid llywodraeth leol. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau lleol a'r angen i gefnogi talwyr y dreth gyngor.

**Dyfodol Swyddfeydd CCNC yn y Gogledd
The Future of ASPB Offices in North Wales**

Q12 Ann Jones: Will the Minister make a statement on the future of ASPB offices in north Wales following assimilation into the Assembly Government? OAQ0034(FIN)

C12 Ann Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol swyddfeydd y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yng ngogledd Cymru ar ôl iddynt gael eu hymgorffori yn Llywodraeth y Cynulliad? OAQ0034(FIN)

Sue Essex: No firm decisions have been taken on the specific posts to be located in the new offices. We have been looking at the possibility of integrating Assembly sponsored public bodies' functions into the Assembly's new offices in Aberystwyth and Llandudno Junction, and we are working with the ASPBs to consider the operational and other consequences of this.

Sue Essex: Ni phenderfynwyd yn bendant ynghylch y swyddi penodol sydd i'w lleoli yn y swyddfeydd newydd. Buom yn ystyried y posibilrwydd o gymhathu swyddogaethau'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn swyddfeydd newydd y Cynulliad yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno, ac yr ydym yn gweithio gyda'r CCNC i ystyried y goblygiadau gweithredol ac eraill o wneud felly.

**Uno CCNC â'r Llywodraeth (Cyllid)
The Merger of ASPBs with the Government (Funding)**

Q13 Jocelyn Davies: Will the Minister make a statement on any funding required for the merger of certain ASPBs to the Assembly Government? OAQ0003(FIN)

C13 Jocelyn Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gyllid sydd ei angen ar gyfer ymgorffori rhai cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i Lywodraeth y Cynulliad? OAQ0003(FIN)

Sue Essex: I refer you to the consultation paper that the First Minister published on the mergers on 19 January 2005.

Sue Essex: Fe'ch cyfeiriaf at y papur ymgynghori a gyhoeddwyd am yr uno, gan y Prif Weinidog ar 19 Ionawr 2005.

**Adroddiad Rhag-gyllidebol Canghellor y DU
The UK Chancellor's Pre-budget Report**

Q14 Mick Bates: Will the Minister make a statement on the effects the UK Chancellor's pre-budget report had on the Welsh Assembly budget? OAQ0009(FIN)

C14 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith gafodd adroddiad rhag-gyllidebol Canghellor y DU ar Gyllideb Cynulliad Cymru? OAQ0009(FIN)

Sue Essex: The pre-budget report provided the Assembly with an additional £38.5 million over the next three years. The £7.4 million in 2005-06 will be allocated to local government. The allocation of the £15.7 million in 2006-07, and £15.4 million in 2007-08, will be determined in this year's budget round in accordance with our strategic priorities.

Sue Essex: Neilltuodd yr adroddiad rhag-gyllidebol £38.5 miliwn yn ychwanegol i'r Cynulliad dros y tair blynedd nesaf. Neilltuir y £7.4 miliwn yn 2005-06 i lywodraeth leol. Caiff y £15.7 miliwn a neilltuir yn 2006-07, a'r £15.4 miliwn yn 2007-08, ei benderfynu yng nghylch cyllideb eleni yn unol â'n blaenoriaethau strategol.

Polisi Caffael Llywodraeth y Cynulliad The Assembly Government's Procurement Policy

Q15 William Graham: Will the Minister make a statement concerning the Assembly Government's procurement policy? OAQ0022(FIN)

C15 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi caffael Llywodraeth y Cynulliad? OAQ0022(FIN)

Sue Essex: The Assembly's procurement policy is based on achieving continuing improvement in value for money and increasing the competitiveness of our suppliers. The policy also ensures that procurements are undertaken in an ethical, accountable and compliant manner.

Sue Essex: Mae polisi caffael y Cynulliad yn seiliedig ar gyflawni gwelliant parhaus o ran gwerth am arian a gwella cystadleurwydd ein cyflenwyr. Mae'r polisi hefyd yn sicrhau y gwneir caffaeliadau mewn modd moesegol, atebol a chydymffurfiol.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Sites of Special Scientific Interest

Q11 David Lloyd: Will the Minister make a statement on the condition of sites of special scientific interest in Wales? OAQ0028(EPC)

C11 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwr y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yng Nghymru? OAQ0028(EPC)

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): The Countryside Council for Wales has reported its assessment of the condition of habitat features on sites of special scientific interest, of which, 47 per cent were in favourable condition or recovering, 52 per cent were in unfavourable condition, and 1 per cent was recorded as partially destroyed. The CCW is developing a programme to manage SSSIs into favourable condition through management agreements and other initiatives.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cyflwyno ei asesiad o gyflwr nodweddion cynefinau ar safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Yr oedd 47 y cant ohonynt mewn cyflwr ffafriol neu'n gwella, yr oedd 52 y cant mewn cyflwr anffafriol, a chofnodwyd bod 1 y cant wedi eu dinistrio'n rhannol. Mae CCGC yn datblygu rhaglen i reoli SoDdGA i gyrraedd cyflwr ffafriol drwy gytundebau rheoli a mentrau eraill.

Cael Gwared ar Wastraff Peryglus The Disposal of Hazardous Waste

Q12 Brynle Williams: Will the Minister make a statement on the disposal of hazardous waste? OAQ0020(EPC)

C12 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gael gwared â gwastraff peryglus? OAQ0020(EPC)

Carwyn Jones: The disposal of hazardous waste has been, and will be, the subject of several new sets

Carwyn Jones: Bu gwaredu gwastraff peryglus yn destun sawl rheoliad newydd, a bydd y sefyllfa

of regulations. In July 2004, the landfill directive's pre-treatment requirements and co-disposal ban came into force. In July 2005, the waste acceptance criteria and new hazardous waste regulations will enter into force.

honnno yn parhau. Ym mis Gorffennaf 2004, daeth gofynion rhagdriniaeth a gwaharddiad cyd-waredu y gyfarwyddeb tirlenwi i rym. Ym mis Gorffennaf 2005, daw'r meini prawf gwastraff derbyniol a'r rheoliadau gwastraff peryglus newydd i rym.

Blaenoriaethau Datganoli i'r Cynulliad Priority Areas for Devolution to the Assembly

Q13 David Lloyd: What representations has the Minister made regarding any priority areas that he has identified within his portfolio for devolution to the Assembly? OAQ0035(EPC)

C13 David Lloyd: Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud ynghylch unrhyw feysydd o flaenoriaeth y mae wedi'u clustnodi yn ei bortffolio i'w datganoli i'r Cynulliad?

Carwyn Jones: Powers have been transferred recently to the Welsh Assembly governing animal health and welfare, abandoned vehicles and water industry inset appointments. I have sought agreement for the transfer to the Assembly of further powers under the Pollution Prevention and Control Act 1999.

Carwyn Jones: Trosglwyddwyd pwerau yn ddiweddar i Lywodraeth y Cynulliad i reoli iechyd a lles anifeiliaid, cerbydau sydd wedi eu gadael ac, yng nghyd-destun y diwydiant dŵr, penodi cyflenwyr mewn ardal benodol i gymryd lle'r prif gyflenwyr yn yr ardal gyfan. Yr wyf wedi ceisio cytundeb i drosglwyddo mwy o bwerau i'r Cynulliad o dan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999.

Y Sector Organig The Organic Sector

C14 Elin Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hybu y sector organig? OAQ0042(EPC) [W]

Q14 Elin Jones: Will the Minister make a statement on promoting the organic sector? OAQ0042(EPC) [W]

Carwyn Jones: Yr ydym yn gweithio gyda'r archfarchnadoedd i hyrwyddo cynnyrch organig o Gymru. Mae dau gwmmi organig wedi derbyn grantiau gwerth £80,000 o dan y cynllun datblygu marchnata. Mae ffermwyr yn cael cymorth drwy'r cynllun ffermio organig, y cynllun cynnal organig newydd, cyngor drwy Cyswllt Ffermio a Chanolfan Organig Cymru, a rhwydwaith o ffermydd arddangos organig.

Carwyn Jones: We are working with supermarkets to promote Welsh organic products. Marketing development scheme grants worth £80,000 have been awarded to two organic companies. Support for farmers includes the organic farming scheme, the new organic maintenance scheme, advice through Farming Connect and Organic Centre Wales, and a network of organic demonstration farms.

TB mewn Gwartheg TB in Cattle

Q15 Laura Anne Jones: Would the Minister make a statement on TB levels in cattle in Wales? OAQ0013(EPC)

C15 Laura Anne Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y lefelau TB mewn gwartheg yng Nghymru? OAQ0013(EPC)

Carwyn Jones: The total number of new TB herd incidents in Wales in the period January to November 2004 was 561, of which, 262 are so far considered to be confirmed, new TB incidents.

Carwyn Jones: Cyfanswm yr achosion tybiedig o TB mewn gwartheg yn y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd 2004 oedd 561, ac ystyriwyd bod 262 ohonynt hyd yma yn achosion newydd o TB a gadarnhawyd.